## ATODLEN 7

Cymwysiadau ac anghymwysiadau

### Personau y gwaherddir eu cyflogi neu y cyfyngir ar eu cyflogi

**9.** Anghymhwysir person rhag dal swydd neu barhau i ddal swydd llywodraethwr mewn ffederasiwn ar unrhyw adeg pan fo'r person hwnnw—

(a) wedi ei gynnwys yn y rhestr o athrawon a rhai fu'n gweithio gyda phlant neu bersonau ifanc y gwaherddir eu cyflogi neu y cyfyngir arnynt o dan adran 1 o Ddeddf Amddiffyn Plant 1999(**1**);

(b) yn destun cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 142 o Ddeddf 2002(**2**);

(c) wedi ei anghymhwyso rhag gweithio gyda phlant o dan adrannau 28, 29 neu 29A o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llysoedd 2000(**3**);

(d) wedi ei anghymhwyso rhag cofrestru o dan Ran XA o Ddeddf Plant 1989(**4**) ar gyfer gwarchod plant neu ddarparu gofal dydd;

(e) wedi ei anghymhwyso rhag cofrestru o dan Ran 3 o Ddeddf Gofal Plant 2006(**5**);

(f) wedi ei wahardd o weithgaredd a reoleiddir sy'n ymwneud â phlant yn unol ag adran 3(2) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006(**6**);

(g) yn destun cyfarwyddyd gan yr awdurdod priodol o dan adran 167A o Ddeddf 2002(**7**);

(h) wedi ei anghymhwyso, yn rhinwedd gorchymyn a wnaed o dan adran 470 neu adran 471 o Ddeddf 1996(**8**), rhag bod yn berchennog unrhyw ysgol annibynnol neu rhag bod yn athro neu athrawes neu gyflogai arall mewn unrhyw ysgol; neu

(i) wedi ei anghymhwyso rhag cofrestru o dan Ran 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010(**9**).

---

(**1**) 1999 p.14; ac fel y'i harbedwyd gan erthygl 5 o Orchymyn Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (Cychwyn Rhif 6, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) 2009, sef O.S. 2009/2611.
(**2**) Fe'i dirymwyd at ddibenion benodol gan Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 p.47 (*gweler* adran 63).
(**3**) 2000 p.43; dirymwyd adrannau 28, 29 a 29A at ddibenion penodol gan adran 63 o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006.
(**4**) 1989 p.41. Fe'i dirymwyd gan adran 73 o Fesur Plant a Theuluoeddd (Cymru) 2010 (mccc 1).
(**5**) 2006 p.21.
(**6**) 2006 p.47.
(**7**) Mewnosodwyd adran 167A gan adran 169 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (p.40) ond nid yw eto mewn grym.
(**8**) Fe'i dirymwyd gan adran 216 o Ddeddf Addysg 2002.
(**9**) 2010 mccc 1.